PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 50 | Rhagfyr 15, 2022 | 50c.



## SILOAM, MORFA BYCHAN GER PORTHMADOG

Do'n i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ond bobol bach!

### CHWE BLYNEDD YN ÔL

I bob pwrpas, ond yn swyddogol, mi roedd drysau Siloam wedi'u cau, a hynny, yn syml iawn, oherwydd bod cynulleidfa fach, oedd yn heneiddio'n gyflym, wedi diflannu oherwydd marwolaethau, ac nid oedd yn bosib cynnal gwasanaethau yno, ond doedd wiw sôn am gau chwaith. I bob pwrpas, roedd Siloam yn bod ac eto ddim yn bod! Roedd hi'n sefyllfa od a dweud y lleiaf, ond nid dyma'r lle i ymhelaethu ar hynny.

### OND ...

Daeth un neu ddau o bobl ifanc yr eglwys oedd wedi gadael cartref a mynd i fyw i ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl i'r ardal i fyw yn ystod y cyfnod cymharol ddiweddar, a chyda'r nos yn ystod Hydref 2022 fe ddaethom at ein gilydd i weld os oedd modd tanio brwdfrydedd yn y gymuned leol i weld achos Iesu Grist (yr unig achos ym Morfa Bychan ers blynyddoedd maith) yn parhau ar agor yn weithredol ... ac yn ffynnu. Drwy ystyriaeth weddigar penderfynwyd cychwyn yr olwynion i droi eto ar bnawn Sul 4 Rhagfyr, 2022 – ail Sul yr Adfent.

### A BETH DDIGWYDDODD?

Fel yr awgrymais ar ddechrau'r ychydig eiriau yma, cefais gryn dipyn o sioc pan gerddodd Elen a minnau i mewn i'r capel, ac yn Siloam, cerdded i mewn i wynebu'r gynulleidfa'r ydach chi. Mi wn mai adeilad bychan ydi o, a bod cynulleidfa o ugain yn edrych yn un ryfeddol o dda yno, ac oedd, mi roedd yna ugain yno, a mwy, taech chi'n cyfri'n iawn. Waeth i mi heb â ffantaseiddio a dweud bod y gynulleidfa i gyd o Morfa Bychan,  roedd sbrincliad o bobl o Borth-y-gest, Porthmadog a Chricieth yno, ond mi roedd yno gnewyllyn ifanc o'r Morfa, ac mi roedd yna blant, a do, mi gafwyd oedfa, a honno'n un gartrefol dros ben o dan arweiniad y gweinidog.

### YN GORON AR Y CWBL

Roedd Llion ab Emlyn – sy'n rhedeg busnes bwyd yn yr ardal ag sydd wedi dod yn ôl i'r Morfa wedi treulio rhai blynyddoedd i ffwrdd ac yn aelod yn Siloam – wedi trefnu lluniaeth wedi'r gwasanaeth naill ai y tu allan neu du mewn i'r capel, ac roedd hi'n ddigon braf i'r rhan fwyaf gymdeithasu y tu allan.

### A'R DYFODOL?

Nodwedd arbennig Siloam erioed oedd cynhesrwydd ei chroeso a chartrefolrwydd y gwasanaethau. Does dim amheuaeth gen i na fydd hynny'n para, a gobeithio y medrir, trwy arweiniad yr Ysbryd Glân, ddal ati i gynnal gwasanaethau yno – mae o'n bwll bywiol, iachus. Rhowch weddi dros Siloam fel achos sy'n dymuno byw, mae hynny'n newyddion calonogol iawn yn y cyfnod sydd ohoni.

**Iwan Llewelyn (gweinidog)**
**Gwenan Hughes (ysgrifennydd)**
**Fflur ab Emlyn (trysorydd)**



## TYSTYSGRIF PREGETHU Y COLEG A'R CYFUNDEB

Y Parchg Tom Evans, Cadeirydd y Cyfundeb (tan y cwrdd hwnnw) yn cyflwyno Tystysgrif Cymhwyster Pregethwr Cynorthwyol i Annalyn Davies yng nghwrdd chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yng nghapel Blaenycoed fis diwethaf. Mae Annalyn yn brysur dros ben ar y Suliau, yn ogystal ag yn ystod yr wythnos fel Swyddog Cymunedol prosiect Tŷ Croeso ym Methlehem Newydd, Pwll-Trap, Sanclêr – prosiect a sefydlwyd trwy nawdd Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.



# Llythyr at Joseff Nadolig 2022

Rwy'n mentro sgwennu atat er nad wyt yn fy nabod ac, yn wir, dwi ddim yn dy nabod chdi yn rhy dda chwaith. Darllenais mai Jacob oedd dy dad ac mai Mathan oedd enw dy daid. Pwy oedd dy fam tybed?

Y gwir yw dwi'n gwybod dipyn mwy am Mair, yr un a gymeraist yn wraig i chdi.

Dwi wedi gweld lot fawr o blant yn actio dy ran mewn pasiant Dolig dros y blynyddoedd, a ges y fraint un flwyddyn o sefyll yn ymyl Mair gyda thywel reit liwgar ar fy mhen a *dressing gown* digon blêr yr olwg amdanaf. Doedd gen i ond ychydig eiriau i'w cofio wrth gyfarch y sêr-ddewiniaid o'r Dwyrain. 'Diolch yn fawr i chi am ddod mor bell,' a, 'Diolch yn fawr am yr anrhegion i'r baban.'

Er i fi chwilio trwy ysgrifau Matthew, Marc, Luc ac Ioan does dim sôn amdanat ar ôl y geni ar wahân i'r ymweliad blynyddol â Jerwsalem pan oedd Iesu yn ddeuddeg mlwydd oed. Rhaid i fi gyfaddef, dwi ddim yn deall pam mae'r pedair Efengyl wedi dy anwybyddu bron yn llwyr.

Dwi'n meddwl dylet fod wedi cael llawer mwy o barch na hynny gan mai chdi ddewisodd fabwysiadu'r babi ymddangosodd yn annisgwyl dros nos megis yng nghroth Mair. Dwi'n siŵr dy fod wedi cael yfflon o sioc pan gest ti wybod bod Mair yn feichiog a chdithau wedi dyweddïo gyda hi. Mae'n siŵr dy fod wedi amau ar y dechrau bod Mair wedi bod yn anffyddlon i chdi. Yn ôl be ddwi'n ei ddeall, os nad oedd enw i dad dynol y babi yn y dyddiau hynny gallai'r awdurdodau Iddewig y cyfnod orchymyn i fenyw feichiog ddibriod fel Mair gael ei llabyddio i farwolaeth. Yn anorfod felly ni fyddai Iesu wedi ei eni oni bai am ryw wyrth arall i'w achub o'r groth.

O edrych yn ôl, gennyt ti a chdi yn unig oedd y dewis a'r cyfrifoldeb tyngedfennol i benderfynu os oedd y babi i oroesi neu beidio. Oni ddylasai'r Efengylau danlinellu'r gymwynas enfawr wnest ti â Mair ac â'r holl fyd mewn gwirionedd, wrth i chdi ddewis mabwysiadau'r plentyn diniwed a phriodi Mair mewn priodas barchus i foddhau disgwyliadau a gofynion cyfreithiol y gymdeithas ar y pryd. Diolchwn dy fod wedi gwrando ar ryw negesydd angylaidd pan oeddet rhwng cwsg ag effro rhyw noson.

Rwy'n ofni byddai ein bywyd ni a bywyd yr holl fyd yn dra gwahanol pe bait wedi rhoi Mair heibio a gwahanu oddi wrthi. Byddai Mair wedi dioddef



cywilydd creulon a'r tebygolrwydd byddai hi wedi ei diarddel o'r synagog. Trist iawn yw'r rheidrwydd i fi gyfaddef wrthyt, mai dyna oedd y driniaeth ragrithiol gafodd nifer o ferched sengl yn rhai o gapeli Cymru hyd yn ddiweddar, os oedd menyw yn disgwyl plentyn heb fod hi'n hysbys yn gyhoeddus pwy oedd tad y plentyn.

Wyt yn gwybod beth mae Matthew (1: 19:20) yn dweud amdanat ti Joseff? '... a chan ei fod yn ddyn cyfiawn ond heb ddymuno ei chywilyddio'n gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gwr, ei gollwng ymaith yn ddirgel. Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, "Joseff, fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynddi yn deillio o'r Ysbryd Glan." '

Mae Matthew (1:25) yn ategu, 'Ond ni chafodd (Joseff) gyfathrach a hi nes iddi esgor ar fab; a galwodd ef Iesu.' Tybed fuost ti yn rhan o'r drafodaeth wrth ddewis yr enw Iesu?

Joseff druan, gest ti rywfaint mwy o rybudd ymlaen llaw i sylweddoli pwy oedd y babi yng nghroth dy ddyweddi? Gest ti unrhyw awgrym o gwbl o'r pethau cywilyddus ac erchyll byddai'r babi bach diniwed yn ei ddioddef yn y dyfodol? Darllenwn fod Mair wedi cadw rhai pethau'n gyfrinachol yn ei chalon. Oedd hi wedi rhannu'r cyfrinachau hyn gyda chdi rhywdro?

Rydw i'n gofyn braidd yn haerllug efallai, elli di faddau i Matthew, Marc, Luc, Ioan a hyd yn oed Paul am dy anwybyddu bron yn llwyr yn Y Testament Newydd sydd gennym? Erbyn meddwl, mae'r Eglwys Gristnogol hefyd wedi dibrisio pwysigrwydd y dewis tyngedfennol wnest ti i briodi merch ifanc oedd yn disgwyl babi yn ei chroth. Dwi'n gobeithio gest ti angladd anrhydeddus, er does neb hyd yn oed yn cofnodi pryd wnest ti farw a sut wnest ti farw. Mae lot fawr o sôn yn ein dyddiau ni am ddiffyg parch at fenywod mewn rhai diwylliannau ond mae'r modd cefaist ti dy drafod yn destun cywilydd yn arbennig mai chdi fabwysiadodd Ceidwad y Byd.

Efallai bydd cyfle i ni gael sgwrs dros baned ar ôl y pasiant Dolig eleni. Fe hoffwn yn fawr iawn wybod mwy amdanat a gwybod y gwir sut gest ti dy drin fel tad amhrisiadwy.

Gan edrych mlaen at y sgwrs os yn gyfleus i chdi. Diolch i chdi Joseff,

**Gwilym Wyn Roberts**

# GAIR AM AIR 4

## Pochemuchka

Perthyn i bob iaith geiriau na ellid yn llwyr a llawn eu cyfieithu i iaith arall. Yn y Gymraeg mae gennym 'hiraeth'. Mae'r gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin â nifer o'r geiriau rheini. Daw testun ein sylw heddiw o'r Rwseg: *pochemuchka*. Golyga'n fras person sydd â thueddiad i ofyn llawer gormod o gwestiynau, ond nad sydd o reidrwydd mor barod i wrando'r atebion na derbyn ateb.

Nid yw Malachi ymhlith yr amlycaf o'r proffwydi. Mae gwaith a neges y proffwyd arbennig hwn yn ddiarth i'r mwyafrif. Proffwydoliaeth fer iawn ydyw – tair tudalen yn unig – 52 o adnodau; proffwydoliaeth yn drwch o gwestiynau!

### Cariad

Mae'r broffwydoliaeth yn dechrau'n hyderus: *Rwy'n eich caru, medd yr Arglwydd* (1:2). Geiriau hyfryd, ond roedd bywyd yn galed, a phobl Malachi'n cael y fath ddatganiad o gariad dwyfol yn anodd derbyn. Does dim syndod felly fod y bobl yn taflu'n ôl at Dduw y cwestiwn pigog: *Ym mha ffordd yr wyt yn ein caru?* Roedd popeth cyfarwydd yn chwalu'n deilchion o'u cwmpas – bywyd i gyd ar ben i waered – ac mae'r bobl yn mynnu cael gofyn: *Ple mae Duw Cyfiawnder?* (2:17). Mae Malachi broffwyd yn clywed cwestiynau ei bobl, cwestiynau miniog, ymosodol:
*Sut bu inni ddirmygu dy enw?* (1:6)
*Sut yr ydym wedi dy flino O! Dduw?* (2:17)
*Sut yr ydym yn dy dwyllo O! Dduw?* (3:8)
*Ofer yw gwasanaethu Duw. Pa ennill sydd inni o gadw ei ddeddfau?* (3:14)

*parhad ar y dudalen gefn*

Yr Adran Gydenwadol

RHAGFYR 15 2022 RHIF 94

# Fel y cadwer i'r oesoedd a ddel y glendid a fu?

Mae canlyniadau'r ddau gyfrifiad a gyhoeddwyd yn ystod y pythefnos diwethaf yn ddifyr a thrist, os nad yn sioc. Lleihad sylweddol yn y nifer sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion a lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. 'Ffydd ac argyfwng cenedl', fel y dywedodd R. Tudur Jones ddechrau'r 1980au.

Ble mae hyn yn fy ngadael i fel Gweinidog sydd wedi teimlo galwad i arwain Eglwys Gristnogol trwy gyfrwng y Gymraeg? Ydy hi'n amser i newid gyrfa? Neu, os aros yn y weinidogaeth, ddechrau'r daith tuag at weinidogaethu a chenhadu yn Saesneg?

Go brin! Galwad sydd gen i, nid gyrfa, rhywbeth i'w ddilyn mewn ac allan o dymor. Rhywbeth sy'n gofyn am ffyddlondeb pan mae'r gwynt yn deg a dycnwch pan mae'n oer tu allan.

Dydi Cristnogaeth sy'n ffyddlon i ffordd Iesu Grist erioed wedi hawlio'i dilysrwydd drwy fod yn boblogaidd; yn hytrach, ein cyffes yw ei bod yn WIR, does ots am ei phoblogrwydd.

Wrth galon Cristnogaeth, mae gyda ni Grist yn marw ar y Groes ('*loser*' yn ôl safon y byd) yn hytrach nag ennill mwyafrif mewn etholiad. Fuodd Cristnogaeth sy'n ffyddlon i ffordd Iesu erioed ynglŷn â chael dilysrwydd yn llygaid y byd, er i ni'n ffôl grwydro a cheisio hynny sawl tro drwy ein hanes.

A beth am y weinidogaeth Gristnogol Gymraeg? Pam rhoi fy egni i weinidogaethu ymhlith y lleiafrif bychan yma o 17%? Wel, yn syml iawn, am fod fy ffydd a fy hunaniaeth wedi ymblethu â'i gilydd. Er fy mod yn gallu ac yn gwahaniaethu rhwng fy Nghristnogaeth a fy Nghymreictod, eto, 'Cristion Cymraeg' ydwyf ac a fyddaf, am y rheswm syml mai yn y Gymraeg mae Duw yn siarad efo fi (trwy ei Air) ac yn y Gymraeg dwi'n siarad efo Duw (trwy weddi).

Dyna ydi un o'r pethau mwyaf pwerus am y ffydd Gristnogol: mae'n anrhydeddu urddas hunaniaeth rhywun ac mae modd i rywun ddod i gredu ac addoli yn ei famiaith heb orfod cefnu ar bwy ydi o neu ydi hi. Nid oes raid dod yn Sais neu'n Americanwr cyn dod yn Gristion, yn yr un ffordd ag nad oedd angen i'r Groegwyr yn gyntaf ddod yn Iddewon cyn dod yn Gristnogion yn amser y Beibl.




Rhys a'i feibion o flaen murlun Gareth Bale yng Nghaernarfon

Mae Cristnogaeth yn grefydd draws-ddiwylliannol. Nid ystyr hynny yw ei bod yn an-niwylliannol nac yn wrth-ddiwylliannol. Ei ystyr yw ei bod yn grefydd, drwy gynllun, sy'n gallu gwneud ei nyth ym mhob diwylliant, ac fe wnaeth ei nyth yng Nghymru ac yn y Gymraeg. Dyna pam mai 'Cristion Cymraeg' ydw i ac y byddaf i.

Mae natur fy ngweledigaeth Gristnogol i yn un o Dduw sy'n sôn am undod yng Nghrist; ie, ond undod mewn amrywiaeth. Bwriad Duw i ddynoliaeth a'r greadigaeth yw amrywiaeth ar bob lefel, gan gynnwys amrywiaeth diwylliannol. Ac felly, i'r Cristion, mae yna rin ysbrydol i frwydr yr iaith hyd heddiw gan ei bod yn ymwneud â gwarchod y patrwm Cristnogol o undod mewn amrywiaeth.

Fel mae Dafydd Iwan yn ei ganu ym mhennill olaf 'Yma o Hyd':

> A bloeddiwn gerbron y gwledydd,
> 'Mi fyddwn yma tan Ddydd y Farn!'

Nid dyfais rethregol mo'r geiriau yma ond yn hytrach awgrym o seiliau Cristnogol cenedlaetholdeb Dafydd sy'n adleisio'r weledigaeth o Lyfr y Datguddiad:

> Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo. Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel: "I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen y perthyn y waredigaeth!" (Datguddiad 7:9–10)

Mae bod yn Gristion yn her; mae bod yn Gymro Cymraeg yn frwydr. OND fe all bod yn 'Gristion Cymraeg' fod yn rhywbeth chwyldroadol ac mae hynny'n antur sy'n fy nghyffroi o hyd.

*Rhys Llwyd*
*Caernarfon*

# Y Parch. Siôn Brynach – Prif Weithredwr newydd Cytûn

**Mae Cytûn – Eglwysi ynghyd yng Nghymru wedi cyhoeddi mai ei Brif Weithredwr nesaf, yn dilyn ymddeoliad y Parch. Ganon Aled Edwards OBE, fydd y Parch. Siôn Brynach.**

Dywedodd Cadeirydd Cytûn, Dr Patrick Coyle:

'Mae trosglwyddo cyfrifoldebau'r Prif Swyddog bob amser yn gyfnod o gyffro ac edrych tua'r dyfodol. Edrychwn yn ôl gyda diolchgarwch aruthrol am y gwasanaeth hir a chlodwiw a roddwyd gan y Parch. Ganon Aled Edwards yn ystod cyfnod o newid mawr i eglwysi ac i bobl Cymru. Edrychwn ymlaen yn awr at fanteisio ar y profiad eang a ddaw yn sgil gyrfa flaenorol Siôn yn yr Eglwys, cysylltiadau cyhoeddus a materion cyhoeddus. Gwn fod ganddo ffydd Gristnogol ddofn a gwybodaeth am eciwmeniaeth yng Nghymru a thu hwnt.'

Mae Siôn Brynach ar hyn o bryd yn Bennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus Cyngor Celfyddydau Cymru, ar ôl bod yn Brif Weithredwr Hanfod Cymru (2017–18), yn Ymgynghorydd Atebolrwydd dros Ymddiriedolaeth y BBC am ddeng mlynedd (2006–2017), arweinydd tîm y wasg a chyfathrebu'r Archesgob ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru (2000–diwedd 2006) a British Gas (1996–2000).

Cafodd ei ordeinio'n ddiacon yn yr Eglwys yng Nghymru yn 2020 ac yn offeiriad yn 2022, ac mae wedi gwasanaethu fel curad cynorthwyol hunangynhaliol yn Eglwys Crist, Parc y Rhath, Caerdydd, ers 2020. Cafodd ei eni ym Mangor a'i fagu yn Nyffryn Nantlle a Gorseinon, ac mae ganddo gysylltiadau teuluol cryf â gogledd sir Benfro a Cheredigion hefyd. Addysgwyd ef ym Mhrifysgol Bangor a Choleg yr Iesu, Rhydychen. Mae'n byw yng Nghaerdydd ers 1993, yn briod â Cathrin ac mae ganddynt bedwar o blant. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Dywedodd Siôn:



'Pleser o'r mwyaf yw cael fy mhenodi i'r swydd gyffrous a phwysig hon ond ar yr un pryd rwy'n ymwybodol iawn fy mod yn dilyn ôl traed rhai cewri go iawn ym maes eciwmeniaeth, fel y Parch. Noel Davies a'r Parch. Gethin Abraham-Williams. Mae fy rhagflaenydd, y Canon Aled Edwards, hefyd wedi gwneud llawer i ddod â'r eglwysi i'r amlwg yn sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn ogystal â datblygu perthynas adeiladol gyda gwleidyddion a Llywodraeth Cymru. Gobeithio y byddaf yn gallu adeiladu ymhellach ar y sylfeini pwysig hyn ar ôl i mi ymgymryd â'r swydd hon.

'Mewn cyfweliad ar gyfer y swydd hon, tynnais sylw at heriau a pheryglon y neo-lwytholdeb y mae academyddion wedi'u nodi fel nodwedd o'n cymdeithas gyfoes a her sydd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae gan yr eglwysi swyddogaeth bwysig o ran pontio'r carfanau hynny. Ond mae Duw yn ein caru oll yn gyfartal.

'Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at ddatblygu cysylltiadau pellach ag eglwysi'r tu hwnt i Gymru yn ogystal â chymunedau ffydd eraill yng Nghymru, a chynyddu fy nealltwriaeth bersonol o sut y gallem fynd ati i gydweithio fel enwadau Cristnogol a gwahanol grefyddau er gogoniant i Dduw.'

Bydd Siôn yn dechrau ar ei waith fel Prif Weithredwr Cytûn ar 1 Ebrill 2023.

# Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion

Yn dilyn y Ddeddf Addysg newydd i Gymru (2021), penderfynodd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru y byddai'n ddoeth diwygio dogfen Gillian Wood, *Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion* (2003). Rydym yn ddiolchgar i Vaughan Salisbury (Ysgrifennydd Addysg Cyngor yr Eglwysi Rhyddion) am ymgymryd â'r gwaith yma.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael fel fersiwn ar-lein yn unig yn y Gymraeg a'r Saesneg, a hynny ar y gwefannau enwadol, a cheir dolen gyswllt iddo yn adran Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ar wefan Cytûn.

Dywedodd Vaughan Salisbury, 'Rwy'n gobeithio y bydd y dogfennau hyn o gymorth i aelodau eglwysi lleol wrth iddynt gyfrannu at gwricwlwm ac Addoli ar y Cyd eu hysgolion lleol'. I ddarllen



a lawrlwytho'r ddogfen, cliciwch yma: Cyswllt Ysgolion – Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (ysgolsul.com)

ADNABOD **Cymeriadau'r Hen Destament**

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 12 Dyheu am yr ardd

### Darllen: Genesis 13:8–18

Roeddwn yn cloi'r myfyrdod diwethaf drwy ein hatgoffa o'r addewid o nef newydd a daear newydd, y greadigaeth newydd yna y mae Duw wedi ei sicrhau ar ein cyfer yn yr efengyl. Wrth ddarllen Llyfr y Datguddiad mae'n arwyddocaol fod y Beibl yn dechrau â hanes colli gardd, ac yn cloi â'r addewid am adennill yr ardd. Fel yn achos cynllunwyr trefol chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf, dinas gardd (*garden city*) yw'r addewid yma:

> Yna dangosodd yr angel imi afon dŵr y bywyd, yn ddisglair fel grisial, yn llifo allan o orsedd Duw a'r Oen, ar hyd canol heol y ddinas. Ar ddwy lan yr afon yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg cnwd, gan roi pob cnwd yn ei fis; ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenhedloedd. Ni bydd dim mwyach dan felltith. (Datguddiad 22:1–3)

Yn ein hadnodau heddiw cawn y frawddeg: 'Cododd Lot ei olwg, a gwelodd fod holl wastadedd yr Iorddonen i gyfeiriad Soar i gyd yn ddyfradwy, fel gardd yr ARGLWYDD' (adn. 10). Fel yr oeddwn yn awgrymu'r tro diwethaf, nid yn unig y mae'r adran yma yn ein cyfeirio at ddewis Abraham, ond hefyd at ddewis ei nai, Lot. O fewn y gymdeithas batriarchaidd hon, yr hyn oedd yn ddisgwyliedig yw y byddai Lot wedi caniatáu i'w ewythr ddod i benderfyniad ar sut i oresgyn y gynnen rhyngddynt. Ond, o roi'r dewis i Lot, cawn gipolwg ar y ffordd y mae'r ddau hyn yn gweld bywyd bellach. Er yr anufudd-dod a welwn ym mywyd Abraham ym mhennod 12, cawn olwg yma ar ei hyder yn Nuw – y Duw sydd wedi ei alw, wedi ei alw ag addewid, a'r Duw sy'n paratoi diwedd bendigedig iddo.

Yn wir, pwy a ŵyr nad oedd y profiad o ddaioni a thrugaredd Duw tuag ato yn yr Aifft wedi ei berswadio, fel Dafydd, y byddai'r daioni hwnnw'n ei ganlyn 'holl ddyddiau fy oes', ac y byddai'n cael byw yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd (gw. Salm 23). Yn sicr, mae caniatáu i Lot wneud y dewis yn arwyddo'i awydd nid yn unig i ateb y gynnen ond hefyd ei fodlonrwydd yn narpariaeth Duw ar ei gyfer. Mae F. B. Meyer, wrth gyfeirio at Abraham, yn dod i sylweddoli bod cymaint mwy gan Dduw na chysur gwastadedd Soar, yn dweud: 'Gall y dyn sydd yn sicr o Dduw fforddio dal gafael ysgafn iawn ar bethau'r byd hwn. Duw ei Hun yw ei etifeddiaeth ac, o gael Duw, mae ganddo'r cyfan.'

Wrth gwrs, mae ymddiriedaeth yn angenrheidiol i'r math hwn o ddealltwriaeth o fywyd. Yn aml yn y Beibl fe gawn bobl Dduw mewn lleoedd anodd anghyffredin, ac eto, o weld y darlun mawr, nid gwaith ofer oedd dewis ymddiried, neu hyd yn oed bod yn fodlon anfodlon. Sut oedd Joseff yn teimlo tybed wrth gael ei gyhuddo o anfoesoldeb rhywiol a chael ei hun yn y carchar? Neu beth am Paul yn y carchar?

Yn achos Joseff, mae'n esbonio sut roedd yn edrych yn ôl ar ei brofiad: 'Yr oeddech chwi yn bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw y bwriad yn ddaioni, er mwyn gwneud yr hyn a welir heddiw, cadw'n fyw llawer o bobl' (Genesis 50:20). Yn achos Paul, mae yntau hefyd yn gweld achos i ddiolch wrth ddewis bod yn ffyddlon. Wrth ysgrifennu o'r carchar yn Rhufain, mae'n sownd mewn gefynnau i'r milwyr oedd yn ei warchod. Mae'n amlwg fod hyn wedi rhoi cyfle iddo rannu ei ffydd a gweld y rhai oedd yn ei gaethiwo yn dod i adnabod y rhyddid sydd yn yr efengyl: 'Y mae'r saint i gyd, ac yn arbennig y rhai sydd yng ngwasanaeth Cesar, yn eich cyfarch' (Philipiaid 4:22; gweler hefyd 1:12–14).

Ond, os oes yna bobl sy'n medru byw heddiw â'u golwg ar yr ardd y mae Duw yn ei haddo, mae yna eraill sydd eisiau'r ardd nawr. Dyna oedd penderfyniad Lot. I bob golwg mae hwn yn gweld y tir, yn gwybod am angen ei deulu a'i anifeiliaid, ac yn penderfynu mai dyma'r tir yr oedd am ei ddewis. Does dim sôn am weddïo, dim sôn am godi allor, dim sôn am flaenoriaethu neb arall o'i flaen ef ei hun a'i deulu a'i eiddo. Mae'n amlwg hefyd nad oedd ystyriaeth i ganlyniadau gwahanu oddi wrth gwmni Abraham, a dewis cwmni pobl y gwastadedd yma. Wnaeth hynny ddim lles parhaol iddo ef na'i deulu, ac er ei fod wedi codi i fod yn ddylanwadol yn Sodom, gan fod y cyfeiriad ato ym mhennod 19:1 yn eistedd yn mhorth y ddinas, eto, beth bynnag am ei ddylanwad, wnaeth hynny ddim lles i Sodom.

Ymhellach, nid dyma oedd y lle i fynd â'i wraig ac i fagu ei blant. Mae mwy i ddewis Lot na hyn hyd yn oed. Nid dim ond mynd i'r lle oedd yn edrych orau yr oedd Lot. Roedd rhywbeth ysbrydol yn mynd ymlaen. Roedd Lot eisiau tir da ond, yn ddyfnach na hynny, roedd yn edrych am ardd, yn edrych am baradwys ar y ddaear. Mae'r esboniwr Derek Kidner yn nodi: 'Mae Lot, wrth ddewis y pethau a welir, yn eu cael yn llygredig ac ansicr; wrth ddewis yn hunanol, yr oedd i dyfu'n fwyfwy ynysig a heb gariad. Ar y llaw arall, cafodd Abraham ryddhad a bywyd wrth ddewis addewid Duw.'

1. Beth yw paradwys yn eich golwg chi? Ymhle mae paradwys i chi?
2. Rydym i gyd yn awyddus i wneud y dewisiadau gorau. Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu holi wrth benderfynu pa ddewis i'w wneud?
3. Pa mor bwysig i chi yw aros yng nghwmni pobl Dduw?


S4C ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 18 Rhagfyr**
Rhaglen o Eglwys y Santes Fair, Dinbych, wrth i ni ddathlu'r Nadolig. Cawn fwynhau perfformiadau arbennig, darlleniadau amserol a chydganu carolau.

BBC radio cymru ***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 18 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Ailddarllediad o raglen yn cynnwys darlleniadau a chaneuon pwrpasol at gyfnod y Nadolig. Yr Wyth sy'n canu a'r Esgob Barry Morgan sy'n darllen
**Sul, 18 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Guto Llywelyn, Hendygwyn-ar-Daf

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# George Lewis (1763–1822)

*Dyma ail ran erthygl Gwilym Tudur am y diwinydd George Lewis.*




Beth felly wnaeth ddarbwyllo Lewis i aros yng Nghymru? Mae'n ymddangos mai ei gyfaill, Edward Williams (1750–1813), gweinidog eglwys Carr's Lane, Birmingham wnaeth ei annog i aros a hynny mewn llythyr ato ym 1794. Williams hefyd wnaeth berswadio Thomas Jones o Gaer (1737–1813) i gynnig swydd iddo fel arolygydd rhwydwaith o ysgolion yng ngogledd Cymru er mwyn ei gymell i aros yng Nghymru.

### Llanuwchllyn

Yn fuan ar ôl iddo gychwyn arolygu'r ysgolion hyn, derbyniodd Lewis alwad i weinidogaethu yn Llanuwchllyn ym 1794. Roedd ei gyfnod yn Llanuwchllyn yn un prysur a ffrwythlon. Ym 1809, cafwyd diwygiad grymus o dan ei weinidogaeth lle derbyniodd yr eglwys ddau gant o aelodau newydd. Er mai pregethwr esboniadol, dwys oedd Lewis, roedd pobl yn 'disgyn fel meirwon' yn ei oedfaon wrth glywed yr Efengyl yn cael ei phregethu. Yn Llanuwchllyn hefyd y daeth Lewis yn gyfaill i Thomas Charles ac ef oedd un o gyfranwyr cyntaf cylchgrawn Charles, *Y Drysofa Ysbrydol* ym 1799.

### Cyhoeddiadau

Ysgrifennodd Lewis y rhan fwyaf o'i weithiau cyhoeddedig pan oedd yn Llanuwchllyn. Y cyntaf oedd *Arweinydd i'r Anwybodus* (1795) sef cyfrol sy'n ceisio dysgu plant ac oedolion anllythrennog i ddarllen. Cyhoeddodd lu o gyfrol eraill hefyd gan gynnwys cyfieithiad newydd o Gatecism Byrraf Westminster (1802); traethawd ar gyfiawnhad trwy ffydd (1803); pregeth ar *Athrawiaeth Etholedigaeth* (1809); ynghyd â chasgliad o emynau Isaac Watts yn Gymraeg, *Mawl o enau plant bychan* (1807).

### Esboniad

Er hynny, prif weithiau Lewis oedd y *Drych* a'r *Esponiad*. Cyhoeddwyd y *Drych Ysgrythyrol neu Gorph o Ddifinyddiaeth* gyntaf ym 1797 ac erbyn 1860 yr oedd hi wedi cael ei hailargraffu pedair gwaith. Cyfrol o ddiwinyddiaeth systematig yw hon sy'n esbonio athrawiaethau'r Beibl mewn ffordd drefnus. Rhannodd Lewis y gyfrol yn chwe rhan: (1) *Theologia*, sef gwirioneddau mewn perthynas i Dduw; (2) *Anthropologia*, sef gwirioneddau mewn perthynas i ddyn; (3) Christologia, sef gwirioneddau mewn perthynas i Grist; (4) *Charitologia*, sef golwg ar y bendithion sydd yn deillio o'r Cyfryngwr; (5) *Pneumatologia*, sef golwg ar waith yr Ysbryd ym mywyd y Cristion ac, yn olaf: (6) *Nomologia*, sef golwg ar y cyfreithiau sydd i lywodraethu bywyd y Cristion. Mae'n gyfrol sylweddol sy'n fynegiant o Gristnogaeth Galfinaidd yn ei gogoniant Cymreig. Mae ei harddull glir yn dangos dylanwad y Piwritaniaid ac mae ei strwythur yn dangos ôl y sgolastigiaid diwygiedig, yn arbennig Francis Turretin (1623–87).

Yn fuan ar ôl iddo orffen y *Drych,* cyhoeddodd Lewis y gyfrol gyntaf o'i *Esponiad ar y Testament Newydd* ym 1802. Bwriad yr *Esponiad* oedd cynorthwyo Cymry cyffredin i ddarllen a deall gwirioneddau'r Beibl. Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol, mae Lewis yn egluro pam ei fod wedi ysgrifennu'r *Esponiad:* 'O Gymry tlodion! Er bod gair y gwirionedd yn eich plith, nid oes gennych ddim cymaint ag un Eglurhad ohono yn eich iaith eich hunan.'

### Prifathro

Ym 1812, ymddeolodd Jenkin Lewis (1760–1831) fel prifathro'r Athrofa Annibynnol yn Wrecsam. Ar gais Edward Williams a John Pye-Smith (1774–1851), George Lewis gafodd ei benodi yn ei le. Symudodd felly i Wrecsam i gymryd gofal o'r athrofa cyn symud eto pan ail-leolwyd hi i Lanfyllin ym 1816 a'r Drenewydd ym 1821. Bu farw Lewis yn 59 oed yn y Drenewydd ym 1822 ar ôl hyfforddi cenhedlaeth o weinidogion a chyhoeddi dros ugain o gyfrolau diwinyddol.

Er bod Cymru'n edrych yn dra gwahanol ddaucanmlynedd wedi marwolaeth Dr George Lewis, yr un yw ei phrif angen: dod i adnabod yr Arglwydd Iesu trwy ei air, y Beibl. Defnyddiwyd Lewis yn rymus gan Dduw i gyflwyno neges ardderchog y Beibl i'r Cymry a boed iddo ein defnyddio ni yn yr un modd heddiw.

## CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Yn y cwrdd chwarter a gynhaliwyd yng nghapel Minny Street, Caerdydd, nos Fercher 26 Hydref traddodwyd anerchiad llawn gobaith ond heriol am ddyfodol ein heglwysi gan lywydd Undeb yr Annibynwyr, y Parchedig Beti-Wyn James. Roedd ei datganiad agoriadol, sef bod ein heglwysi ar drothwy cyfnod newydd cyffrous, yn gwbl annisgwyl yng nghyd-destun adroddiadau beunyddiol am gapeli'n cau a chynulleidfaoedd yn heneiddio ac edwino, ynghyd â phrinder gweinidogion i fugeilio'r eglwysi. Byrdwn ei neges oedd peidio â hiraethu am lewyrch eglwysi ddoe, gan nad dyma'r ffon fesur briodol y dylid ei defnyddio wrth asesu cryfder ein heglwysi heddiw.



### Anerchiad grymus

O ble, felly, y daw ei ffydd ein bod ar drothwy dyfodol newydd a chyffrous? Yn gyntaf, bydd rhaid diosg y meddylfryd fu'n sail i'r drefn weinidogaethol draddodiadol a chofleidio gweinidogaeth amgen trwy fabwysiadu patrwm newydd sy'n harneisio'r doniau ysbrydol sydd ar gael ymhlith yr aelodau. Yn hyn o beth byddai'n cynulleidfaoedd yn ymdebygu'n llawer agosach i drefn yr eglwys fore yn hytrach na'r gyfundrefn fu'n gwasanaethu ein heglwysi am genedlaethau. Y cam cyntaf a'r anoddaf fydd dirnad y doniau ysbrydol sy'n llechu ymhlith yr aelodau, cyn annog yr unigolion hynny i gofleidio'r weledigaeth newydd. Ffocws gweddill ei hanerchiad oedd cynghorion ymarferol a doeth fyddai'n hwyluso newid meddylfryd. Gyda chynrychiolaeth o blith eglwysi'r cyfundeb a nifer dda o weinidogion a chyn-weinidogion yn y gynulleidfa, trueni nad oedd amser yn

*parhad ar dudalen 7*

## Barn Annibynnol

# YMSON HEN FUGAIL

### Noson dywyll

Ychydig iawn sydd wedi cael braint mor fawr â fi. Noson hir oedd hi, fel pob nos; a honno'n noson hynod o dywyll hefyd. Fi oedd yr ieuengaf yno, prin ddeg oed, gyda 'nhad a dau ewyrth. Noson ddiflas arall mewn cyfres ddiddiwedd.

Ond rhaid bod yn effro, er mwyn cadw'r praidd yn ddiogel. Gwaith diddiolch, ond hanfodol. Rhaid ei gyflawni yn gydwybodol.

Y Rhufeiniaid oedd yn rheoli bryd hynny, fel heddiw. Eu hunig ddiddordeb ynom ni yw ein bod yn talu ein trethi, er mor enbyd o dlawd ydyn ni. Does ganddyn nhw ddim gofal amdanom, dim ond ein defnyddio fel peiriannau gwneud arian. Ai felly, tybed , mae'r cryfion yn arfer ymddwyn ym mhob oes? Ai profiad cyffredin gweithwyr yw teimlo nad ydyn nhw'n cael eu parchu, mai nhw sy'n cael eu gorfodi i dalu'r pris am yr argyfwng er nad nhw sy'n gyfrifol amdano?

### Byd tywyll

Mae'r nos yn dywyll. A'r byd hefyd. Oes gobaith y bydd pethau'n gwella rywbryd? Mae'r wawr mor bell. Mae'r tywyllwch a'i fraw yn ein llethu.




Soniodd y proffwydi y byddai Meseia yn dod i'n gwaredu ac i'n codi. Roedd hynny ganrifoedd maith yn ôl. Ydy Duw wedi anghofio amdanom? Neu falle ei fod wedi laru arnom, a throi ei gefn achos bod ein pechod mor gryf?

I'r cyfeiriad yna y byddai ein sgwrs yn troi'r aml ar y bryniau, wrth i ni geisio dygymod â'r undonedd diobaith.

### Gwyrthiau'r geni.

Ac yna drama, gwyrth, berfedd nos, fel tase rhywun wedi gwasgu botwm, y lle yn olau i gyd. Tywyllwch nos, a thywyllwch byd, wedi'u trechu, a'r awyr yn llawn angylion, a'r rheini'n canu.

Roedd mwy nag un wyrth y noson honno. Cofiwch mai atom ni, ni sydd ar waelod y pentwr, y daeth yr angylion. Ni oedd y cynta i glywed bod y Meseia wedi ei eni. Ni, oedd yn neb! Nid y brenin, nid y Phariseaid, nid y swyddogion, nid y bobl busnes, ni, y tlotaf o'r tlawd.

A'r wyrth fwyaf syfrdanol i gyd, Duw ei hun yn dod yn un ohonom. Chlywodd neb y fath beth. Ddychmygodd neb y fath beth.

Sut y daeth? Daliwch i ryfeddu. Nid ymddangos o unman mewn rhwysg a wnaeth, ond cael ei eni, dod yn fabi bach.

Chafodd e mo'i eni mewn palas nac ymhlith y da eu byd. Daeth i ganol y rheini nad oedd neb yn eu gweld, y bobl a anghofiwyd.

Yn nes ymlaen, pan oedd yn crwydro'r wlad, roeddwn yn dilyn o bell pan fedrwn. Roeddwn yn rhy swil i siarad gydag e, aros ar y cyrion oeddwn i a gwrando.

Lawer gwaith fe'i clywais yn dweud bod y tlotaf yn haeddu'r gore yn nheyrnas Duw. Mynnai y dylem roi sylw iddyn nhw yn gynta, nid eu gadael nes bod pawb arall wedi cael digon. Wnaeth Iesu ddim anghofio'i wreiddiau na bwriad ei Dad. Hoffech chi ddilyn Iesu? Fe wyddoch beth yw'r gofyn: i ddod â golau i fywydau tywyll.

Fe newidiodd y noson honno ar rosydd Bethlehem fy mywyd i, mae'r wefr yn para. Mae'r golau yn gryfach na'r tywyllwch.

'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd.'

**Dewi M. Hughes**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG – *parhad*

caniatáu i ni agor trafodaeth ar ei chenadwri dreiddgar ac amserol. Serch hynny, gobeithio'n fawr y bydd ei neges heriol yn ysgogi eglwysi unigol fod yn ddigon dewr i wynebu'r dyfodol a mabwysiadu rhai o'r awgrymiadau a nodwyd, heb anghofio fod angen rhoi amser i'r doniau ddatblygu, a derbyn nad oes modd i unrhyw eglwys fod yn berffaith.

### Cyfarfod gwaith

Cyn anerchiad y llywydd neilltuwyd rhan gyntaf y cwrdd i gynnal y cyfarfod cyffredinol blynyddol dan gadeiryddiaeth Dr Hefin Jones. Yn ei adroddiad, cyfeiriodd yr ysgrifennydd at y ddau gwrdd chwarter a drefnwyd yn gynharach yn y flwyddyn; thema'r cwrdd rhithiol ym mis Mawrth oedd 'Arloesi', gyda chyflwyniadau ar y datblygiadau diweddar o fewn dwy o eglwysi'r cyfundeb dan nawdd y Rhaglen Arloesi a Buddsoddi – Ebeneser, Caerdydd a'r Tabernacl, Efail Isaf – dau gynllun arloesol i godi ysbryd pawb wrth droedio i'r dyfodol ôl-Covid. Ym mis Mai cynhaliwyd cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb y cyfundeb ers dwy flynedd pan roddwyd cyflwyniad gan aelodau gweithgor ymgyrch eglwysi Dementia-gyfeillgar i'r llawlyfr *Heulwen Dan Gymylau*, sef conglfaen yr ymgyrch. Cyfeiriwyd hefyd at yr adnoddau eraill amrywiol oedd yn rhan annatod o'r ymgyrch fyddai ar gael ar wefan yr Undeb erbyn yr hydref.

### Cylchlythyr

Un datblygiad newydd yn ystod y flwyddyn gafodd groeso mawr oedd y penderfyniad i gyhoeddi cylchlythyr chwarterol, wedi ei olygu gan Hefin Jones, er mwyn cryfhau'r ymdeimlad o gymuned ymhlith eglwysi'r Cyfundeb. Bellach, mae tri rhifyn wedi gweld golau dydd a phob un yn cadarnhau bod llawer iawn o weithgarwch amrywiol yn digwydd o fewn yr eglwysi.

### Sul y Cyfundeb

Ar ddechrau'r flwyddyn, sefydlwyd gweithgor i awgrymu Sul y Cyfundeb amgen i'w gynnal yn 2023, a chymeradwyodd y Cwrdd argymhelliad y gweithgor i drefnu digwyddiad dan y teitl Cyf**UN**deb ar y thema 'Gwir greu, creu Gwir' i'w gynnal yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd fore Sul 12 Mawrth 2023.

Yn ystod 2022, derbyniwyd dau gais dan y cynllun nawdd a sefydlwyd gydag arian cymynrodd pan werthwyd un o gapeli'r cyfundeb rai blynyddoedd yn ôl. Dyfarnwyd £3,738 i'r Tabernacl, Porthcawl i osod cyfarpar gweledol fel y gellid manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i ddangos sleidiau a chlipiau ffilm a fideo, a £2,000 i'r Tabernacl, Efail Isaf fel cyfraniad tuag at y gost o osod system fyddai'n uwchraddio safon y sain a'r lluniau wrth ffrydio oedfaon.

Cadarnhawyd swyddogion y Cyfundeb am y flwyddyn nesaf, sef: Cadeirydd: Dr Hefin Jones; Is-gadeirydd: Sian Meinir; Trysorydd: Kevin Davies; Ysgrifennydd: Gwilym Huws.

**Gwilym Huws**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# GAIR AM AIR 4 – *parhad*




**Gormodedd**

Ond, ac yn yr 'ond' hwn fe ddown at athrylith Malachi: *pochemuchka*. Gormod o gwestiynau a chwestiynu, heb fawr o awydd i wrando'r atebion a derbyn yr ateb. Deallodd Malachi mai'r lle gorau oll i guddio rhag Duw, yw cuddio ymhlith ein cwestiynau amdano. Try Malachi felly yn enau i gwestiynau Duw. Ym mhroffwydoliaeth Malachi, down wyneb yn wyneb â'r Duw sydd yn holi, a chroesholi ei bobl:

*Pan ddowch i offrymu anifeiliaid dall, cloff neu glaf yn aberth imi a'i da a derbyniol gennyf yw hynny?* (1:8)
*Y mae mab yn anrhydeddu ei dad, a gwas ei feistr. Os wyf fi'n dad, ple mae f'anrhydedd? Os wyf yn feistr, ple mae fy mharch?* (1:6)
*Onid un Duw a thad sydd gennych, pam felly yr ydych yn dwyllodrus tuag at eich gilydd?* (2:10)

Dyma bwysigrwydd Malachi – mae'r proffwyd hwn yn herio pob *pochemuchka*. Oes, mae gennym ein cwestiynau i Dduw, ond, mae ganddo yntau ei gwestiynau i ni. Mynnwch gyfle i ddarllen y broffwydoliaeth hon. Dyma Air Duw, yn holi enaid pob un ohonom. Gair Duw yn holi am natur, diben a chyfeiriad bywyd – fy mywyd i, ein bywyd ni.

Cymer, Arglwydd, f'einioes i,
i'w chysegru'n oll i ti ... Amen

(F. R. Havergal, 1836–79
cyf. J.Morris-Jones, 1864–1929)

**Owain Llŷr Evans**


# Capten

Pleser mawr iawn i ni yma yn Soar, Nefyn, oedd cael cyflwyno llechen fel rhodd i un o'n genod ni, sef Meinir Pierce Jones ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Tregaron. Fe enillodd hi Wobr Daniel Owen am ei nofel hanesyddol afaelgar Capten oedd yn seiliedig ar hanes un o'i pherthnasau sef Elin Jones a bortreadwyd fel gwraig y capten yn y gyfrol






*Daniel Owen yn anrhegu Meinir a'r gynulleidfa yn mwynhau achlysur hapus*




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*